



# 17



Mae Theatr Cenedlaethol Ieuenctid Cymru (ThCIC) yn cynnig hyfforddiant a chyfleoedd perfformio o'r radd flaenaf i rai o bobl ifanc mwyaf talentog ac ymrwymedig Cymru sydd â diddordeb mewn perfformio a chynhyrchu theatr. Mae ThCIC yn creu theatr gyfoes sy'n amrywiol ac yn cymryd risg ac ar flaen y gad ym maes theatr ieuenctid yng Nghymru.

Mae rhaglen *Aspire* ThCIC yn buddsoddi yn natblygiad actorion ifanc mwyaf addawol Cymru drwy ganolbwyntio ar sgiliau theatr graidd, dyfeisio, technegau perfformio, a theatr gorfforol.

Yn 2017, bydd CCIC yn ehangu ar y rhaglen lwyddiannus *Aspire* er mwyn ymgysylltu â mwy o actorion ifanc. Fe fydd hefyd yn ehangu'r rhaglen i ddarparu cyfleoedd datblygu ar gyfer pobl ifanc sydd â diddordeb mewn dylunio ac adeiladu set, gwisgoedd, goleuo a sain, a rheoli llwyfan.

Bydd ThCIC yn canolbwyntio yn gyfan gwbl ar ei rhaglen *Aspire* eleni, cyn y clyweliadau ar gyfer ThCIC 2018.

## I bwy y mae?

Mae *Aspire* ar gyfer actorion ifanc yng Nghymru (14-20 oed) sy'n cymryd rhan mewn dosbarthiadau theatr yn yr ysgol, coleg, mewn ysgol theatr breifat a/neu gyda chwmni theatre ieuenctid lleol, ac sy'n anelu at lefel arall o her a phrofiad.

Mae mynediad i'r rhaglen *Aspire* drwy broses clyweliad. Gall pobl ifanc glyweld ar gyfer actio a chynhyrchu (mae opsiwn i ddewis 'y ddau' ar y ffurflen gais).

## Beth mae'n ei olygu?

Mae *Aspire* yn cynnig cyfle euraidd i dderbyn hyfforddiant dros dri chyfnod hyfforddi byr lle bydd cyfranogwyr yn datblygu dealltwriaeth ac arfer perfformio a chefn llwyfan theatr.

## Gyda phwy y bydda i'n gweithio?

Bydd Tonya Smith a Jain Boon yn arwain y rhaglen *Aspire* ochr yn ochr ag ymarferwyr profiadol o fewn y diwydiant.

## Pa bryd ac ymhle mae ThCIC 2016 yn digwydd?

Cyfnod Preswyl 1: 21 Awst – 23 Awst 2017 Aberystwyth (Lleoliad *tbc*)  
Cyfnod Preswyl 2: 28 – 29 Hydref 2017 Y Waun (Lleoliad *tbc*)  
Cyfnod Preswyl 3: 17 – 18 Chwefror 2018 Caerdydd (Lleoliad *tbc*)

*\*Bydd yn rhaid i ymgeiswyr llwyddiannus fod ar gael ar gyfer POB UN O'R TRI chyfnod hyfforddi.*

## Faint mae'n ei gostio?

£310 yn cynnwys yr holl ddysgu, llety, yswiriant, dau bryd o fwyd y dydd a chyfraniad tuag at gronfa gymdeithasol/llesiant. Gellir cytuno ar randaliadau gyda swyddfa CCIC.

## Beth ddylech ei wneud os na allwch fforddio hyn?

Rydym yn awyddus i sicrhau nad yw rhesymau ariannol yn atal unrhyw un rhag gwneud cais. Bydd pob cais am gymorth ariannol yn cael ei drin yn hollol gyfrinachol.

## Clyweliadau ThCIC 2017

Bydd clyweliadau rhanbarthol *Aspire* 2017 yn cael eu cynnal yn ystod mis Ebrill. Rhaid i ymgeiswyr fod rhwng 14-20 oed ar 31 Awst 2017 ac yn gallu dangos eu bod yn ymgymryd â theatr ar lefel uwch/canolraddol.

## Beth ddylwn ni ei ddisgwyl yn y Clyweliad?

**Actorion:** Bydd y clyweliad yn canolbwyntio'n bennaf ar eich sgiliau a'ch hyblygrwydd yn perfformio. Gall gynnwys elfennau o waith byrfyfyr, gwaith cymeriad, symud, gwaith llais a chanu.

**Cynhyrchu:** Bydd ymgeiswyr yn gweithio gyda'i gilydd ar amrywiaeth o weithgareddau creadigol ac ymarferol

## Am fanylion pellach, gweler y daflen wybodaeth clyweliadau yma

## Ble a phryd galla i clyweld?

Actio	9 Ebrill	Caerdydd
	10 Ebrill	Sir Gaerfyrddin
	11 Ebrill	Gogledd Cymru ( <i>Lleoliad tbc</i> )
	12 Ebrill	Merthyr Tudful
	13 Ebrill	Caerdydd
Cynhyrchu	<i>Dyddiad tbc</i>	De Cymru
	<i>Dyddiad tbc</i>	Gorllewin Cymru
	<i>Dyddiad tbc</i>	Gogledd Cymru

[Noder: seiliwyd pob dyddiad/lleoliad ar gyfer clyweliadau ar wasgariad daearyddol nodweddiadol ymgeiswyr a gellir eu newid os bydd llai na 15 ymgeisydd i bob lleoliad. Yn yr un modd, gellir trefnu dyddiad/lleoliad ychwanegol os oes digon o alw.]

## Faint mae'r clyweliad yn ei gostio?

Mae'r ffi clyweliad yn £20 ac ni ellir ei had-dalu

**Anfonwch sic eiddo i Theatr Cenedlaethol Ieuenctid Cymru a phostiwch i ThCIC, CBAC, 245 Rhodfa'r Gorllewin, Caerdydd, CF5 2YX neu gallwch dalu drwy fancio ar-lein; cysylltwch â ni am fanylion.**

## Sut dylech chi wneud cais?

**Gallwch wneud cais ar-lein trwy glicio yma.**

Pe byddai'n well gennych dderbyn ffurflen gais drwy'r post, cysylltwch â ni.

## Dyddiad cau i wneud cais: 31 Mawrth 2017

**Gellir ond ystyried ceisiadau sydd wedi ein cyrraedd ar ôl y dyddiad cau os oes llefydd ar ôl yn unig.**

## Gwybodaeth bellach

Cysylltwch â 029 2026 5060, edrychwch ar [www.nyaw.co.uk](http://www.nyaw.co.uk) neu e-bostiwch [nyaw@nyaw.co.uk](mailto:nyaw@nyaw.co.uk)

Mae ThCIC yn rhan o Gelfyddydau Cenedlaethol Ieuenctid Cymru – dathliad o berfformwyr ifanc gorau Cymru, sy'n awyddus i rannu eu hegri, eu brwdfrydedd a'u sgiliau sylweddol gyda chynifer o bobl â phosibl, wrth iddynt *Berfformio dros Gymru!*